"Ond pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo."
(Mathew 6:6)

Yn y geiriau hyn, mae'r Arglwydd Iesu'n dangos y gwahaniaeth rhwng gweddi go iawn a gweddi ffals. Mae'r naill fath o weddi'n cael ei weld gan Dduw ac mae'n ei werthfawrogi; mae'r math arall yn cael ei weld a'i werthfawrogi gan ddyn yn unig, ac mae'n ddi-werth.

Gweddi breifat

Y peth cyntaf sydd yn cyfrif mewn gwirionedd yn ein bywydau fel Cristnogion yw nid faint o wasanaeth a roddwn, neu rif yr oedfaon a fynychwn; yr un peth sydd yn cyfrif llawer mwy na dim arall yw ein gweddi breifat. Os oes 'drws caeëdig' yn ein bywyd, fe fydd mewnlif o dangnefedd Duw a llawenydd ei bresenoldeb, ac yna bydd gwasanaeth ffrwythlon, parhaol yn llifo allan.

Gad im droi i'm stafell ddirgel,
ti a minnau yno 'nghyd,
profi gwerth y funud dawel,
Pan fo'n drystfawr oriau'r byd; *R.S.Rogers*

Fel y dywed Ann Griffiths: *"Y mae esgeuluso y weddi ddirgel yn brawf o galon wedi blino ar Dduw."*

Perthynas

Mae'r Arglwydd yn pwysleisio bod angen adnabod y Tad yn gyntaf, mae'n dweud **"dy Dad"** nid **"y Tad"**. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gael ein geni o'r newydd i deulu Duw, ein **"geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw".** Yn ôl Ioan 1:12-13, fe ddaw'r hawl yma i ni, wrth i ni dderbyn Iesu Grist fel ein Meseia, ein Gwaredwr personol ni.

Parch

Rhaid i ni gofio pwy yw ein Tad nefol, ac at bwy yr ydym yn dod; neb llai na **"yr uchel a dyrchafedig, sydd â'i drigfan yn nhragwyddoldeb, a'i enw'n Sanctaidd"** (Es. 57:15). Bob tro daw un o gymeriadau'r Beibl yn agos at Dduw mae'n ei gael ei hun ar ei wyneb mewn parchedig ofn. Felly, er fod gennym hyder i ddod at orsedd grasol Duw trwy haeddiant Iesu Grist, rhaid cofio mai ein Tad *nefol* yw hwn.Yr ydym yn gwbl annheilwng ynom ni'n hunain

i ddod ger ei fron, ac eto mae cyfiawnder Crist yn rhoi pob hawl a haeddiant i ni. Felly, rhaid cadw'r balans rhwng yr agosrwydd a'r gostyngeiddrwydd ddylai ein nodweddu gerbron y Duw sanctaidd, gogoneddus a hollalluog.

Parhad

Er fod adnod 7 yn gwahardd ailadrodd gwag a disynnwyr, dydy'r Arglwydd ddim yn gwahardd taerni, yn hytrach mae'n ei annog, ac mae taerni'n siŵr o gynnwys ail-adrodd o'r weddi.

Efallai bod esiampl dda o'r ailadrodd gwag gyda phroffwydi Baal ar fynydd Carmel yn 1 Bren. 18:29: **"Ac wedi i hanner dydd fynd heibio, yr oeddent yn dal i broffwydo'n orffwyll hyd adeg offrymu yr hwyroffrwm."**

Ond yn y bennod flaenorol cawn enghraifft o weddi daer Elias ar Dduw i atgyfodi mab y weddw o Sareffath o farw'n fyw: **"Yna ymestynnodd ar y bachgen dair gwaith, a galw ar yr Arglwydd a dweud, 'O Arglwydd, fy Nuw, bydded i einioes y bachgen hwn ddod yn ôl iddo.'"** (1 Bren. 17:21)

Pwyso

Dywed Hebreaid 11.6: **"rhaid i'r sawl sy'n dod at Dduw gredu ei fod ef, a'i fod yn gwobrwyo'r rhai sy'n ei geisio."** Ac mae hyn yn cyd-fynd â geiriau'r Arglwydd yn adnod 8 o'r darn sydd gennym dan sylw. Y rheswm nad oes angen ailadrodd geiriau gwag, disynnwyr yw ein bod yn galw ar ein Tad sydd yn gwybod ein hanghenion dyfnaf ac yn ein caru'n angerddol. Felly, dod i bwyso ac i ddisgwyl wrtho Ef yr ydym mewn gweddi. Does dim angen y newyddion ar Dduw hollwybodol, ond mae'n dewis gweithio mewn ymateb i geisiadau disgwylgar ei blant.

Calon

Mae'n amlwg fod gweddi'r rhagrithwyr yn arwynebol; mae'n ceisio gwneud argraff ar bobl yn hytrach nag ar Dduw. Fe ddywedodd C.H. Spurgeon mai calon gweddi yw gweddi'r galon. Casbeth gan Dduw yw gweddi'r wefus yn hytrach na'r galon, ac mae Iesu'n dyfynnu Eseia i ddangos hyn: **"Y mae'r bobl hyn yn fy anrhydeddu â'u gwefusau, ond y mae eu calon ymhell oddi wrthyf"** (Math 15:8).

Canlyniad

Mae Iesu'n sôn am wobr Duw yn dilyn gweddi. Nid gwobr canmoliaeth dynion, ond gwobr y Tad nefol. Mae gweddïwr y galon yn derbyn rhan o'i wobr nawr a rhan yn nhragwyddoldeb. Mae'n profi atebion Duw i'w weddi nawr, ac er y gall dderbyn ateb negyddol weithiau, bydd yn ymwybodol o ymateb y nef. Hefyd, wrth roi amser i geisio Duw yn y dirgel, mae'r Cristion yn trysori trysor yn y nef, na all neb ei ddwyn oddi wrtho (Math 6:20).